# Polisi'r Cytundeb Rhannu Data

Mae ein polisi Cytundeb Rhannu Data yn amlinellu ein dull o gydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data a GDPR y DU a rheoliadau eraill o ran rhannu gwybodaeth.

| |
|---|
| Statws y ddogfen: Cymeradwywyd |
| Fersiwn: 4 |
| Dyddiad cymeradwyo: 30 Ionawr 2024 |
| Ar waith o: Chwefror 2024 |
| Perchennog: Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth |
| Awdur: Swyddog Llywodraethu Gwybodaeth |
| Dyddiad adolygu nesaf arfaethedig: Chwefror 2027 |

## Cynnwys

Datganiad Polisi....3
Pwrpas....3-4
Cwmpas ....4
Rhestr Termau.... 4-5
Telerau ar gyfer Rhannu Gwybodaeth.... 5-8
Cyfrifoldebau....8-9
Ansawdd Gwybodaeth....9
Cydymffurfio....9-10
Tryloywder....10
Y Broses ar gyfer Gweithredu Cytundeb Rhannu Data....10-11
Atodiad 1 - Templed Cytundeb Rhannu Data....11-15
Atodiad 2 - Templed Cytundeb Peidio â Datgelu....15-16

## 1. Datganiad Polisi

1.1 Mae gennym gyfrifoldeb cyfreithiol i sicrhau bod ein defnydd o ddata personol yn gyfreithlon, ac yn cael ei reoli'n briodol a bod hawliau unigolyn yn cael eu parchu. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod ein sefydliadau partner hefyd yn glynu wrth y ddeddfwriaeth.

1.2 Mae'r polisi hwn yn rhan o'n Fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth ac mae'n gosod proses a chytundeb er mwyn hwyluso rhannu'r holl ddata personol sensitif perthnasol, a data nad yw'n bersonol, rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i sicrhau bod sefydliadau'n gallu cyflawni eu swyddogaethau'n effeithiol.

1.3 Er mwyn cyflawni ein swyddogaethau statudol a chefnogi cyrff cyhoeddus eraill i gyflawni eu swyddogaethau hwy, rydym yn dibynnu ar rannu gwybodaeth yn effeithlon â phartïon eraill. Bydd methu â glynu wrth y polisi hwn a chreu rhwystrau diangen i rannu gwybodaeth yn amharu ar ein gallu i gyflawni ein swyddogaethau statudol.

1.4 Dylai pob partner i'r polisi a'r cytundeb hwn sicrhau bod eu holl gyflogeion sy'n cael eu heffeithio ganddo:

- yn ymwybodol o gynnwys y cytundebau rhannu data ac yn eu deall; ac
- yn cytuno i weithio o fewn y rheolau a nodir yn y cytundeb a'r protocol.

1.5 Dylai pob partner sicrhau bod diwygiadau i'r Cytundeb Rhannu Data yn cael eu llofnodi mewn da bryd, a rhaid i hynny fod cyn i unrhyw rannu gwybodaeth ddigwydd.

1.6 Drwy ymrwymo i Gytundeb Rhannu Data gyda'r Cyngor Optegol Cyffredinol, mae'r ddau barti yn ymrwymo i gydymffurfio'n briodol â Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU) a Deddf Diogelu Data 2018 (DPA 2018).

1.7 Disgwylir i'r ddau barti hyrwyddo a datblygu ymwybyddiaeth cyflogeion o ofynion allweddol rhannu gwybodaeth. Rhaid i hyn gael ei gefnogi drwy gynhyrchu polisïau a chanllawiau priodol lle bo angen a fydd ar gael i bob cyflogai drwy ddulliau cyfathrebu mewnol pob sefydliad.

## 2. Pwrpas

2.1 Pwrpas y polisi hwn yw darparu fframwaith ar gyfer rhannu gwybodaeth yn gyfreithlon er mwyn sicrhau ein bod ni a'n sefydliadau partner yn gallu cyflawni ein dyletswyddau'n effeithiol. Bydd y polisi'n sefydlu ac yn rheoleiddio arferion gweithio rhyngom ni a'n sefydliadau partner ac yn darparu canllawiau i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo'n ddiogel a bod y wybodaeth sy'n cael ei rhannu at ddibenion cyfreithiol y gellir eu cyfiawnhau.

2.2 Mae'r polisi hwn yn ceisio gwneud y canlynol:

- nodi'r cyfreithiau diogelwch a chyfrinachedd ac egwyddorion rhannu gwybodaeth;

- cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o’r materion allweddol sy’n ymwneud â rhannu gwybodaeth;
- cytuno ar sut i rannu gwybodaeth yn gyfreithlon;
- cefnogi proses a fydd yn monitro ac yn adolygu’r holl lif gwybodaeth;
- annog rhannu gwybodaeth yn ddiogel ac yn effeithlon; a
- diogelu ein sefydliad rhag cyhuddiadau o ddefnyddio data personol yn anghyfiawn neu’n anghyfreithlon.

## 3. Cwmpas

3.1 Mae’r polisi hwn yn berthnasol i’r canlynol:

- Cyflogeion (boed yn barhaol neu dros dro) a gweithwyr
- Aelodau, a
- Chontractwyr sy’n gweithio gyda, neu ar ran, y Cyngor Optegol Cyffredinol

3.2 Mae cydymffurfio â’r polisi hwn yn orfodol. Gall cyflogeion nad ydynt yn cydymffurfio gael ei ystyried yn fater disgyblu.

3.3 Os oes angen rhagor o gyngor ac arweiniad arnoch chi, dylech gysylltu â’r Tîm Llywodraethu Gwybodaeth drwy anfon e-bost at IG@optical.org.

## 4. Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| **Budd y cyhoedd** | O fewn Llywodraethu Gwybodaeth, ystyrir hyn yn gyffredinol fel rhywbeth sy’n gwasanaethu buddiannau’r cyhoedd. |
| **Canllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)** | Y sefydliad sy’n goruchwylio cydymffurfiad â GDPR y DU, Deddf Diogelu Data 2018 a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. |
| **Cyfrinachedd** | Data, a ddarperir yn gyfrinachol, heb gydsyniad ymhlyg i’w gyhoeddi. |
| **Cytundeb Rhannu Data** | Y cytundeb penodol sy’n nodi dibenion rhannu’r wybodaeth. |
| **Data dienw** | Data nad yw, hyd yn oed o’i gyfuno â gwybodaeth arall gan wahanol asiantaethau, yn adnabod unigolyn, naill ai’n uniongyrchol neu drwy alwad. |
| **Data Personol** | Mae’r term ‘data personol’ yn cyfeirio at unrhyw ddata a gedwir naill ai â llaw neu fel cofnodion electronig, neu gofnodion a gedwir drwy dechnoleg sain a/neu weledol, am unigolyn y gellir ei adnabod yn bersonol o’r data hwnnw. Data personol yw data sy’n ymwneud ag unigolyn byw y gellir ei adnabod o’r data hynny, ac unrhyw wybodaeth arall sydd ym meddiant neu sy’n debygol o ddod i feddiant y |

| | |
|---|---|
| | rheolydd data (yr unigolyn neu'r sefydliad sy'n casglu'r wybodaeth honno). |
| **Dinistrio** | Dinistrio gwybodaeth yn barhaol. |
| **Gwrthrych y data** | Yr unigolyn sy'n destun y wybodaeth bersonol. |
| **Gwybodaeth** | Cyfeirir at dri chategori Gwybodaeth/data yn y polisi hwn: Data Corfforaethol, Data Personol, a Data Categori Arbennig. |
| **Gwybodaeth gyfrinachol** | Ystyr gwybodaeth gyfrinachol yw unrhyw wybodaeth nad yw'n wybodaeth gyhoeddus sy'n ymwneud â'r Cyngor Optegol Cyffredinol. |
| **Partner, sefydliad partneriaeth** | Unrhyw sefydliad sy'n ymrwymo i gytundeb neu'n gweithio gyda'r Cyngor Optegol Cyffredinol. |
| **TG** | Technoleg Gwybodaeth. |
| **Y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth** | Mae'r ddeddfwriaeth yn Neddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA) yn rhoi'r hawl i bobl ofyn am wybodaeth gan awdurdodau cyhoeddus. |
| **Y Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR Y DU) a Deddf Diogelu Data 2018 (DPA 2018)** | Y ddeddfwriaeth sy'n nodi hawliau unigol gwrthrych y data o ran diogelu data a phreifatrwydd data. |

## 5. Telerau ar gyfer Rhannu Gwybodaeth

5.1 Mae pob sefydliad partner yn gyfrifol am sicrhau bod eu mesurau sefydliadol a diogelwch yn diogelu'r defnydd cyfreithlon o wybodaeth sy'n cael ei rhannu o dan y polisi hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol a gwybodaeth nad yw'n bersonol.

5.2 Rhaid i sefydliadau partner fod â'r polisïau a'r prosesau Llywodraethu Gwybodaeth priodol ar waith.

5.3 Dylai'r cytundeb rhannu data gynnwys hyperddolenni neu atodiadau i bolisïau Diogelwch Gwybodaeth y partner.

5.4 Ni fydd y gofynion Diogelwch yn cael eu cynnwys yn y cytundeb rhannu data unigol ac eithrio pan fyddant yn unigryw i'r Cytundeb hwnnw. Bydd hyn yn sicrhau bod gofynion yn cael eu cadw'n gyfredol, fel yr hysbyswyd, ac yn osgoi camgymeriadau sy'n deillio o gael mwy nag un copi o ofynion safonol partner.

5.5 Derbynnir na fydd gan bob partner ddosbarthiadau diogelwch ar waith, ond dylai partneriaid sicrhau bod y safonau diogelwch sylfaenol sydd eu hangen arnynt yn cael eu cytuno â phartneriaid y bydd eu gwybodaeth yn cael ei rhannu â nhw; rhaid nodi hyn yn y cytundeb rhannu data.

5.6 Dylai'r sefydliad partner sy'n darparu'r wybodaeth yn wreiddiol gael gwybod am unrhyw achos o dorri cyfrinachedd neu ddigwyddiad sy'n ymwneud â risg neu dorri diogelwch gwybodaeth.

## Trydydd Partïon

5.7 Dylai sefydliadau partner sicrhau bod eu contractau gyda darparwyr gwasanaeth allanol yn cynnwys amod eu bod yn glynu wrth eu rheolau a'u polisïau ynghylch diogelu a defnyddio gwybodaeth gyfrinachol.

5.8 Ni awdurdodir ailddefnyddio gwybodaeth oni chytunir ar hynny'n benodol yn y cytundeb rhannu data.

## Data dienw

5.9 Rhaid i sefydliadau sicrhau nad yw data dienw, yn enwedig wedi'i gyfuno â gwybodaeth arall gan asiantaethau gwahanol, yn dynodi unigolyn, naill ai'n uniongyrchol neu drwy alwad.

5.10 Gellir rhannu data dienw am unigolyn heb gydsyniad (yn amodol ar gyfyngiadau penodol o ran cofnodion iechyd/gofal cymdeithasol), ar ffurf lle nad oes modd adnabod yr unigolyn.

## Data dan Ffugenw

5.11 Prosesu data personol mewn modd sy'n golygu na ellir priodoli'r data personol i wrthrych data penodol heb ddefnyddio gwybodaeth ychwanegol, ar yr amod bod gwybodaeth ychwanegol o'r fath yn cael ei chadw ar wahân a'i bod yn destun mesurau technegol a sefydliadol i sicrhau nad yw'r data personol yn cael ei briodoli i unigolyn naturiol y gellir ei adnabod.

5.12 Gall y broses o roi ffugenw olygu disodli enwau neu ddynodwyr eraill y gellir eu priodoli'n hawdd i unigolion sydd â chyfeirnod, er enghraifft. Er y gallwch gysylltu'r cyfeirnod hwnnw â'r unigolyn os oes gennych fynediad at y wybodaeth berthnasol, rydych yn rhoi mesurau technegol a sefydliadol ar waith i sicrhau bod y wybodaeth ychwanegol hon yn cael ei chadw ar wahân.

5.13 Gall data personol dan ffugenw leihau'r risgiau i wrthrychau'r data a'ch helpu i fodloni eich rhwymedigaethau diogelu data.

5.14 Fodd bynnag, dim ond mesur diogelwch yw'r broses o roi ffugenw i bob pwrpas. Nid yw'n newid statws y data fel data personol ac mae'n dal yn ddata personol ac o fewn cwmpas GDPR y DU.

## Data nad yw'n Ddata Personol

5.15 Ni ddylai sefydliadau partner dybio nad yw gwybodaeth nad yw'n bersonol yn sensitif ac y gellir ei rhannu'n rhydd. Efallai nad yw hyn yn wir a dylid cysylltu â'r partner y mae'r wybodaeth yn deillio ohono cyn i unrhyw rannu pellach ddigwydd.

## Rhannu Data Personol

5.16 Dim ond lle mae hawl gyfreithiol iddynt gyflawni dyletswyddau mewn cysylltiad â'r gwasanaethau y maent yn cael eu cyflogi i'w darparu y dylid rhoi mynediad i gyflogeion at ddata personol.

5.17 Ni chaiff data personol ei drosglwyddo i wlad neu diriogaeth y tu allan i'r DU heb lefel ddigonol o amddiffyniad ar gyfer hawliau a rhyddid gwrthrych y data mewn perthynas â phrosesu data personol, gan gynnwys cydsyniad.

5.18 Dim ond pan fydd sail gyfreithiol benodol wedi'i sefydlu y dylid rhannu data personol h.y. er mwyn cyflawni ein tasg er budd y cyhoedd, rhwymedigaeth gyfreithiol, neu pan geir cydsyniad.

5.19 Rhaid i gydsyniad gael ei roi'n wirfoddol a'i lofnodi'n ddiamwys drwy gyfathrebu ysgrifenedig rhwng y sefydliad a gwrthrych y data. Os nad yw gwrthrych y data yn ymateb, ni ellir tybio bod hyn yn gydsyniad ddealledig. Wrth ddefnyddio categori arbennig o ddata personol, rhaid cael cydsyniad penodol yn amodol ar unrhyw eithriadau presennol. Mewn achosion o'r fath, rhaid i gydsyniad gwrthrych y data fod yn glir a chynnwys eitemau fel manylion penodol y prosesu, y data sydd i'w brosesu, a'r diben ar gyfer prosesu. Rhaid i'r cydsyniad hefyd fod yn gyfredol er mwyn gallu dibynnu arno.

5.20 Bydd gweithdrefnau penodol yn berthnasol os ystyrir nad yw gwrthrych y data naill ai'n gallu rhoi cydsyniad ar sail gwybodaeth oherwydd yr oedran neu os oes gan wrthrych y data amod sy'n golygu nad oes ganddo'r galluedd i roi cydsyniad ar sail gwybodaeth. Yn yr amgylchiadau hyn, dylid cyfeirio at bolisi perthnasol y sefydliad partner.

5.21 Os defnyddir cydsyniad fel cyfiawnhad dros ddatgelu, rhaid i wrthrych y data gael yr hawl i dynnu cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg.

## Tynnu Cydsyniad yn Ôl

5.22 Rhaid i sefydliadau partner fod yn ymwybodol y gall gwrthrych data dynnu cydsyniad yn ôl i brosesu eu gwybodaeth bersonol. Yn yr achos hwn, dim ond pan fydd cyfiawnhad neu amod rhesymol yn berthnasol y gall prosesu barhau (gweler paragraff 5.8.1).

5.23 Pan fydd y sefydliadau partner yn dibynnu ar gydsyniad fel yr amod ar gyfer prosesu data personol, mae tynnu'n ôl yn golygu na fydd yr amod ar gyfer prosesu yn berthnasol mwyach. Dylid rhoi gwybod i Sefydliadau Partner am dynnu cydsyniad yn ôl a bydd y prosesu'n dod i ben cyn gynted â phosibl, lle bo hynny'n berthnasol.

**Rhannu heb Gydsyniad**

5.24 Nid cydsyniad yw'r unig ffordd o ddatgelu data personol. Er mwyn datgelu data personol o dan GDPR y DU a Deddf Diogelu Data 2018, rhaid bodloni o leiaf un amod yn atodlen dau. I ddatgelu data personol sensitif, rhaid bodloni o leiaf un amod yn atodlenni dau a thri.

5.25 Atodlen dau GDPR y DU a Deddf Diogelu Data 2018, amodau sy'n berthnasol i'r egwyddor gyntaf: Mae prosesu unrhyw ddata personol yn datgan y gellir prosesu data personol os yw'n bodloni'r canlynol:

- Mae gwrthrych y data wedi rhoi cydsyniad i brosesu'r data.
- Mae'r prosesu'n angenrheidiol er mwyn gweinyddu cyfiawnder.
- Mae'r prosesu'n angenrheidiol ar gyfer arfer unrhyw un o swyddogaethau'r goron, gweinidog y goron, adran o'r llywodraeth; neu
- Mae'r prosesu'n angenrheidiol ar gyfer unrhyw swyddogaethau eraill o natur gyhoeddus a gyflawnir er budd y cyhoedd gan unrhyw berson.

5.26 Os oes gan sefydliad partner rwymedigaeth statudol i ddatgelu data personol, nid oes angen cydsyniad gwrthrych y data, ond dylid rhoi gwybod i wrthrych y data bod rhwymedigaeth o'r fath yn bodoli.

5.27 Os bydd sefydliad partner yn penderfynu peidio â datgelu rhywfaint neu'r cyfan o'r data personol, rhaid rhoi gwybod i'r awdurdod sy'n gwneud y cais. Er enghraifft, efallai fod y sefydliad partner yn dibynnu ar eithriad cyfreithlon rhag datgelu, neu ar yr anallu i gael cydsyniad gan wrthrych y data.

**Cyfyngiadau ar ddefnyddio gwybodaeth a rennir**

5.28 Dim ond at y diben(ion) a nodwyd ar adeg y datgelu y dylid defnyddio'r holl wybodaeth, yn bersonol neu fel arall, fel y'i diffinnir yn y cytundeb rhannu data perthnasol oni bai ei bod yn ofynnol o dan statud neu reoliad, neu o dan gyfarwyddiadau llys neu fel y cytunwyd mewn man arall. Felly, ni fydd unrhyw ddefnydd pellach o'r data hwn yn gyfreithlon nac yn dod o dan y cytundeb rhannu data.

5.29 Gall cyfyngiadau hefyd fod yn berthnasol i unrhyw ddefnydd pellach o wybodaeth nad yw'n bersonol, fel sensitifrwydd masnachol neu ragfarn i eraill a achosir gan ryddhau'r wybodaeth, a rhaid ystyried hyn wrth ystyried y defnydd eilaidd o wybodaeth nad yw'n bersonol. Os oes amheuaeth, rhaid ymgynghori â pherchennog gwreiddiol y wybodaeth cyn unrhyw ddefnydd eilaidd.

5.30 Mae cyfyngiadau statudol ychwanegol yn berthnasol i ddatgelu gwybodaeth benodol ee cofnodion troseddol a chofnodion iechyd. Rhaid cynnwys gwybodaeth benodol am y rhain yn y Cytundeb Rhannu Data perthnasol.

## 6. Cyfrifoldebau

6.1 Mae pob sefydliad partner yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl gyflogeion sy'n cyrchu gwybodaeth a rennir o dan y polisi hwn, yn ogystal â'r cytundeb rhannu data, yn cael eu hyfforddi i lefel ddigonol sy'n eu galluogi i gyflawni eu dyletswyddau'n hyderus, yn

effeithlon ac yn gyfreithlon.  Rhaid cwblhau hyfforddiant diweddaru o leiaf bob dwy flynedd.

6.2 Rhaid i bob sefydliad partner sicrhau bod unrhyw un o'i gyflogeion sy'n cael mynediad at wybodaeth o dan gytundeb rhannu data yn dilyn y gweithdrefnau a'r safonau y cytunwyd arnynt ac a ymgorfforwyd o fewn y polisi Cytundeb Rhannu Data hwn ac unrhyw Gytundebau Rhannu Data cysylltiedig.

6.3 Rhaid i bob partner sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r polisi a'r cytundeb rhannu data. Pe bai'r partner yn dymuno gwneud diwygiadau i'r cytundeb rhannu data neu ddiweddaru'r deunydd atodol, rhaid iddo wneud hynny ar y cyd â'r partner(iaid) eraill ac ni ddylai wneud unrhyw newidiadau heb hysbysu'r partner arall.

**Cyfrifoldebau'r unigolion**

6.4 Mae pob unigolyn sy'n delio â'r wybodaeth sy'n cael ei rhannu o'r polisi hwn:

6.5 yn bersonol gyfrifol am gadw'n ddiogel unrhyw wybodaeth y mae'n ei chael, ei thrin, ei defnyddio a'i datgelu, a rhaid iddo ddeall sut i brosesu gwybodaeth yn gyfreithlon.

6.6 angen cadw at egwyddorion cyffredinol cyfrinachedd, gan ddilyn y canllawiau a nodir yn y cytundeb hwn, gan ofyn am gyngor pan fo angen.

6.7 gyda dyletswydd i ofyn am brawf o bwy ydych chi neu i gymryd y camau angenrheidiol i ddilysu awdurdodiad rhywun arall, cyn datgelu unrhyw wybodaeth y gofynnir amdani o dan y cytundeb hwn a chytundebau rhannu data cysylltiedig.

## 7. Ansawdd Gwybodaeth

7.1 Mae angen i ansawdd gwybodaeth fod o safon sy'n addas i'r diben ar gyfer y defnydd y bwriedir ei wneud o'r wybodaeth, gan gynnwys bod yn gyflawn, yn gywir ac yn gyfredol yn ôl yr angen at y dibenion y mae'n cael ei rhannu.  Heb hyn gall unrhyw benderfyniad a wneir ar y wybodaeth fod yn ddiffygiol a gall gweithredoedd amhriodol arwain at hynny.

7.2 Disgwylir i sefydliadau partner sicrhau bod data personol a data personol sensitif y mae'n ei gadw yn cael ei brosesu yn unol ag egwyddorion y Ddeddf Diogelu Data: mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y data'n gywir, yn gyflawn ac yn gyfredol ac nad yw'n cael ei gadw am fwy o amser nag sy'n angenrheidiol.

7.3 Disgwylir i bob sefydliad partner ddarparu ymrwymiadau bod gwybodaeth yn cyrraedd lefel ansawdd resymol at y dibenion arfaethedig y mae'n cael ei rhannu ar eu cyfer a gallu dangos tystiolaeth o hyn.

## 8. Cydymffurfio

8.1  Mae sefydliadau partner yn derbyn cyfrifoldeb am archwilio cydymffurfiad yn annibynnol neu ar y cyd â chytundebau rhannu data y maent yn ymwneud â hwy o fewn amserlenni rhesymol.  Mae pob partner yn gallu gofyn i'r llall ddangos eu bod

yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol data, a gall y broses o rannu data ddod i ben yn ystod y cyfnod hwn.

8.2 Os bydd unrhyw bartner yn methu â chadw at y ddeddfwriaeth data, neu'r cytundeb a nodir yn y polisi hwn, gall y cytundeb rhannu data ddod i ben ar unrhyw adeg.

8.3 Os bydd toriad i ddiogelwch data yn ystod neu ar ôl rhannu'r wybodaeth â sefydliad partner, dylai'r sefydliad roi gwybod i'r sefydliad partner ar unwaith. Disgwylir i'r sefydliadau gydweithio i reoli unrhyw achosion o dorri diogelwch data.

8.4 Mae methu â pharchu cyfrinachedd a phreifatrwydd yn anghyfreithlon a gallai arwain at ddiswyddo. Gellid dwyn achos troseddol yn erbyn yr unigolyn hwnnw hefyd.

8.5 Bydd pob sefydliad partner yn indemnio pob un o'r partneriaid eraill yn llawn rhag unrhyw gostau, treuliau a hawliadau sy'n deillio o unrhyw achos o dorri'r cytundeb hwn ac yn benodol, ond heb gyfyngiad, mynediad, colled, lladrad, defnydd, dinistriad neu ddatgeliad anawdurdodedig neu anghyfreithlon gan y partner sy'n troseddu neu ei is-gontractwyr, cyflogeion, asiantau, neu unrhyw unigolyn arall o fewn rheolaeth y partner sy'n troseddu, at unrhyw ddata personol a gafwyd mewn cysylltiad â'r cytundeb hwn.

## 9. Tryloywder

9.1 Rydym yn cadw'r hawl i gyhoeddi manylion ein cytundebau rhannu ar ein gwefan. I wneud hynny, efallai y byddwn yn dileu unrhyw ddata personol sydd wedi'i restru yn y cytundeb.

9.2 Bydd yr holl Gytundebau Rhannu Data blaenorol yn cael eu storio ar ein system a byddant yn cael eu cadw'n ddiogel yn unol â'n polisi cadw.

9.3 Os ydych chi'n dymuno ailddefnyddio unrhyw ran o'n gwybodaeth gyhoeddus yn y modd hwn, anfonwch e-bost at y Swyddog Llywodraethu Gwybodaeth: IG@optical.org.

## 10. Y Broses ar gyfer Gweithredu Cytundeb Rhannu Data

10.1 Pan fydd angen gweithredu Cytundeb Rhannu Data, mae'n bwysig bod hyn wedi'i gymeradwyo gan yr holl staff priodol.

10.2 Dylid rhoi gwybod i'r tîm Llywodraethu Gwybodaeth yn ystod camau cynnar creu'r cytundeb i sicrhau bod gennym sail gyfreithiol i rannu'r wybodaeth a bod y camau priodol yn cael eu cymryd i rannu'r wybodaeth yn ddiogel.

10.3 Yna dylid adolygu'r setiau data i sicrhau mai dim ond yr hyn sy'n angenrheidiol ar gyfer y dasg rydym yn ei phrosesu.

10.4 Yna, dylai Perchennog yr Ased sy'n bennaf gyfrifol am y data a'r Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth gytuno ar hyn.

10.5 Wedyn, dylid anfon hwn at y sefydliad sy'n dymuno i ni ddefnyddio Cytundeb Rhannu Data er mwyn iddynt gytuno ar y ddogfen a'i llofnodi.

10.6 Ar ôl i'r Cytundeb Rhannu gael ei lofnodi gan y sefydliad trydydd parti, rhaid i'r Ased a'r Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth lofnodi'r ddogfen a chadw copi ar gyfer ein cofnodion.

## Atodiad 1 – Templed Cytundeb Rhannu Data

| | |
|---|---|
| Enw'r cytundeb: | |
| Pwrpas y cytundeb: | |
| Enw'r Sefydliad - Partner 1 | **Y Cyngor Optegol Cyffredinol** |
| Partner 1 - Enw perchennog y cytundeb a manylion cyswllt | |
| Enw'r Sefydliad - Partner 2 | |
| Partner 2 - Enw perchennog y cytundeb a manylion cyswllt | |
| Dyddiad a llofnod y cytundeb: Partner 1 | |
| Dyddiad a llofnod y cytundeb: Partner 2 | |
| Lleoliad y cytundeb hwn | **Cyfeiriad gwefan:** |
| Dyddiad dechrau'r cytundeb: | |
| Dyddiad gorffen y cytundeb: | *(Yn berthnasol i brosiectau)* |
| Dyddiad yr adolygiad nesaf: | |

| | |
|---|---|
| Statws y cytundeb | *Drafft, yn fyw, wedi dod i ben* |
| Gwelliannau: | |

**1. Pwrpas y Cytundeb Rhannu Data**

1.1. Datblygwyd y cytundeb hwn i sicrhau bod gan rannu gwybodaeth rhwng y partïon uchod strwythur llywodraethu effeithiol.

1.2 Nid yw'r cytundeb hwn yn rhoi rhyddid llwyr i rannu gwybodaeth yn gyfan gwbl. Rhaid rhannu gwybodaeth o fewn cyfyngiadau'r gyfraith, canllawiau perthnasol a gofynion sy'n benodol i'r gwasanaeth.

1.3. Mae rhannu yn seiliedig ar yr ethos o gydsyniad gwybodus a chyfrinachedd cleientiaid sy'n gyfystyr ag unrhyw rannu gwybodaeth rhwng asiantaethau.

1.4. Bydd y cytundeb hwn yn seiliedig ar y cytundebau gweithredol sydd wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion penodol yr astudiaeth prosiect ac i sicrhau bod unrhyw rannu gwybodaeth yn cael ei wneud o fewn ffiniau'r ddeddfwriaeth a'r fframweithiau cyfreithiol presennol.

**2. Egwyddorion**

2.1 Mae'r cytundeb hwn yn amlinellu'r egwyddorion a'r canllawiau gweithredol ar gyfer sut mae gwybodaeth a data'n cael eu rheoli'n ddiogel rhwng partneriaid y sefydliad.

2.2 Mae'r egwyddorion allweddol canlynol yn arwain y gwaith o rannu gwybodaeth rhwng y partneriaid:

- Mae sefydliadau partner yn cymeradwyo, yn cefnogi ac yn hyrwyddo rhannu gwybodaeth y gellir adnabod rhywun ohono neu wybodaeth ddienw yn gywir, yn amserol, yn ddiogel ac yn gyfrinachol at ddiben y cytundeb hwn yn unig.
- Mae sefydliadau partner wedi ymrwymo'n llwyr i sicrhau, os ydynt yn rhannu gwybodaeth, ei bod yn unol â'u dyletswyddau cyfreithiol, statudol a chyfraith gwlad, a'i bod yn bodloni gofynion yr holl ganllawiau ychwanegol.
- Mae gan sefydliadau partner bolisïau a gweithdrefnau ar waith i fodloni'r gofynion cenedlaethol ar gyfer Diogelu Data, diogelwch gwybodaeth a chyfrinachedd. Mae bodolaeth polisïau o'r fath a chadw atynt yn rhoi hyder i sefydliadau y bydd unrhyw wybodaeth a rennir yn cael ei throsglwyddo, ei derbyn, ei defnyddio, ei dal a'i gwaredu'n briodol.
- Mae sefydliadau partner yn cydnabod eu 'Dyletswydd Cyfrinachedd' i wrthrychau'r data. Wrth wneud cais am ryddhau a datgelu gwybodaeth gan sefydliadau eraill, ni fydd cyflogeion yn ceisio diystyru'r gweithdrefnau sydd gan bob sefydliad ar waith i sicrhau nad yw gwybodaeth yn cael ei datgelu'n

anghyfreithlon nac yn amhriodol. Mae'r cyfrifoldeb hwn hefyd yn ymestyn i ddatgeliadau trydydd parti ac mae'n rhaid i unrhyw fwriad i ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n dod o sefydliad arall gael ei gymeradwyo gan y sefydliad partner ei hun.

- Dim ond data sydd ei angen ac sy'n berthnasol i'r diben fydd yn cael ei rannu.
- Bydd hyn ar sail yr 'angen i wybod'.
- Bydd sefydliadau partner yn sicrhau bod yr holl gyflogeion perthnasol yn ymwybodol ac yn cydymffurfio â'u cyfrifoldebau o ran cyfrinachedd gwybodaeth am bobl sydd mewn cysylltiad â'u sefydliad, yn ogystal ag ymrwymiad y sefydliad i rannu gwybodaeth.
- Rhaid i bob cyflogai perthnasol fod yn ymwybodol y gallai datgelu gwybodaeth bersonol, na ellir ei gyfiawnhau ar sail gyfreithiol neu statudol, boed hynny'n anfwriadol neu'n fwriadol, fod yn destun camau disgyblu.
- Mae sefydliadau partner yn gyfrifol am sefydlu gweithdrefnau effeithiol i fynd i'r afael â chwynion sy'n ymwneud â datgelu gwybodaeth, a dylai gwybodaeth am y gweithdrefnau hyn fod ar gael i ddefnyddwyr gwasanaeth.
- Rhaid i sefydliadau partner ddatgan ble y byddant yn prosesu'r wybodaeth, a sicrhau bod y wybodaeth yn y DU.

**3. Cydsyniad**

3.1 Er mwyn hwyluso llwyddiant effeithiol y broses o rannu data, mae'n rhaid cael cydsyniad penodol gan wrthrychau'r data. Bydd gwrthrychau'r data o leiaf yn cael gwybod y bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu ar draws sefydliadau partner.

3.2 Gofynnir am gydsyniad penodol i rannu'r wybodaeth, ar lafar neu'n ysgrifenedig, oni bai y gallai amharu ar gyflawni swyddogaeth statudol.

3.3 Mae'n ofynnol i sefydliadau partner feddu ar bolisïau clir ar bwrpas prosesu gwybodaeth a storio a chadw gwybodaeth, gan gynnwys y cyfnod cadw hwyaf a phroses ddinistro ddiogel.

**4. Proses**

4.1 Yn ogystal â'r disgwyliadau a nodir ym Mholisi'r Cytundeb Rhannu Data ac mewn mannau eraill yn y cytundeb rhannu data, dyma'r prosesau, y disgwyliadau a/neu'r gofynion penodol (ar gyfer rhannu gwybodaeth at y dibenion a amlinellir uchod):

| Partner 1: |
| --- |
| •<br>•<br>•<br>• |

| Partner 2: |
| --- |
| • |

| |
|---|
| • <br> • <br> • <br> • |

4.2 Gwnewch yn siŵr bod manylion am y canlynol wedi'u cynnwys yn yr uchod:

- sut y ceir cydsyniad (os yw'n berthnasol).
- sut y caiff data ei ddefnyddio.
- pryd y bydd y data'n cael ei ddinistrio.
- lle bydd y data'n cael ei brosesu a'i storio (hynny yw yn y DU neu dramor);
- os bydd y data'n cael ei gyflwyno neu ei gyhoeddi, sut bydd hyn yn cael ei wneud, ac i bwy; ac
- os oes unrhyw drydydd partïon eraill yn gysylltiedig, darparwch gytundebau rhannu data perthnasol eraill neu gytundebau cyfatebol.

**5. Polisïau, Gweithdrefnau a Chanllawiau Ategol**

5.1 Mae'n ofynnol i bob sefydliad partner rannu gwybodaeth yn gyfreithlon, yn ddiogel ac o fewn y canllawiau perthnasol. Rhaid i bartneriaid sicrhau bod ganddynt bolisïau priodol ynghylch y canlynol:

- Diogelu Data.
- Cadw a gwaredu cofnodion.
- Cyfrinachedd.
- Diogelwch gwybodaeth a rheoli digwyddiadau; a
- Egwyddorion Caldicott (os oes angen).

5.2 Rhaid i'r polisïau hyn gynnwys gwybodaeth ar bapur, gwybodaeth lafar a gwybodaeth electronig.

**6. Achosion o Dorri Diogelwch Gwybodaeth neu Ddigwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd**

6.1 Rhaid rhoi gwybod ar unwaith i'ch rheolwr am unrhyw ddigwyddiadau lle mae'r data personol, sensitif neu gyfrinachol sy'n cael ei rannu yn cael ei beryglu, ei golli, ei ddatgelu neu lle mae'r cyfrinachedd yn cael ei dorri, a bydd gofyn i chi lenwi ffurflen digwyddiad. Yna, mae'n rhaid ei anfon at IG@optical.org, a fydd wedyn yn rhoi cyngor ar y camau nesaf. Lle bo'n berthnasol, dylid rhoi gwybod i bartneriaid am dorri diogelwch data a chymryd camau i sicrhau nad yw hyn yn digwydd eto.

6.2 Y pwynt cyswllt ar gyfer rhoi gwybod am achosion o dorri amodau yw: IG@optical.org

**7. Archwilio ac Adolygu**

7.1 Rhaid i bob sefydliad sy'n cael mynediad at ddata fod â mesurau llywodraethu ac asesu risg priodol ar waith, er mwyn sicrhau bod data y gellir adnabod rhywun ohono yn cael ei storio, ei gyrchu a'i ddefnyddio'n ddiogel.

7.2 Dylai polisïau fod ar gael at ddibenion archwilio gyda thystiolaeth o ddyddiadau adolygu clir.

7.3 Pan nad yw eisoes wedi'i sefydlu, bydd prosesau'n cael eu sefydlu ym mhob sefydliad i fabwysiadu dull rheoli risg ar gyfer achosion o dorri amodau mewn perthynas â gweithredu'r cytundeb hwn.

7.4 Cyfrifoldeb y ddau bartner yw adolygu'r cytundeb rhannu data cyn iddo ddod i ben neu cyn y dyddiad adolygu nesaf. Os daw'r cytundeb rhannu data i ben, ni ddylid rhannu'r data nes bydd cytundeb newydd ar waith.

## Atodiad 2 – Templed Cytundeb Peidio â Datgelu

Cytundebau peidio â datgelu

Dyddiad: Partïon:
[ENW'R CWMNI], cwmni sydd wedi'i gofrestru yn Lloegr o dan y rhif cwmni [RHIF CWMNI] y mae ei gyfeiriad wedi'i gofrestru yn [CYFEIRIAD COFRESTREDIG] (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "Derbynnydd")
Ac
Y Cyngor Optegol Cyffredinol, elusen a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr o dan y rhif elusen 1150137 y mae ei chyfeiriad cofrestredig yn 10 Old Bailey, Llundain, EC4M 7NG (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel "Datgelydd")

1. Mae'r Datgelydd yn bwriadu datgelu gwybodaeth gyfrinachol i'r Derbynnydd at ddibenion [NODI'R DIBEN CYFFREDINOL].

2. Nid yw'r holl wybodaeth sy'n cael ei anfon gan y Datgelydd at y Derbynnydd neu sy'n cael ei gasglu gan y Derbynnydd yn rhinwedd ei swydd fel y'i diffinnir yng nghymal 1 i'w datgelu heb gael cydsyniad ysgrifenedig y Datgelydd yn gyntaf, a bydd yn cael ei thrin yn gyfrinachol. Cyfeirir at wybodaeth o'r fath fel "Gwybodaeth Gyfrinachol" o hyn ymlaen.

3. Ni ddylid datgelu unrhyw wybodaeth, deunydd neu ddata sy'n cael ei dderbyn gan y Derbynnydd, yn cynnwys gan drydydd partïon neu isgontractwyr, sy'n berthnasol i gyfarwyddiadau rhwng y Datgelydd a'r Derbynnydd, heb gytundeb ysgrifenedig y Datgelydd ymlaen llaw.

4. Mae'r Derbynnydd yn ymrwymo i beidio â defnyddio'r wybodaeth gyfrinachol at unrhyw ddiben ac eithrio at y diben a ddiffinnir yng nghymal 1, heb gael cydsyniad ysgrifenedig y Datgelydd yn gyntaf.

5. Mae’r Derbynnydd yn ymrwymo i gadw’r Wybodaeth Gyfrinachol yn ddiogel yn unol â Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data 2018, gan gynnwys data sy’n cael ei ddiffinio fel Data Categori Arbennig ac yn rhoi sicrwydd o’r polisïau a’r gweithdrefnau sydd ar waith.

6. Mae’r Derbynnydd yn ymrwymo i roi gwybod am unrhyw achos posibl neu wirioneddol o dorri diogelwch gwybodaeth ar unwaith i’r Datgelydd, drwy anfon e-bost at IG@optical.org, yn ogystal â rhoi rhagor o fanylion am unrhyw ddigwyddiad a chymryd camau priodol ar gais y Datgelydd.

7. Mae’r ymrwymiadau yng nghymalau 2, 3 a 4 uchod yn berthnasol i’r holl wybodaeth sy’n cael ei ddatgelu gan y Datgelydd i’r Derbynnydd, ni waeth ym mha fodd neu ym mha ffurf y caiff ei datgelu neu ei chofnodi.

8. Ni fydd unrhyw beth yn y Cytundeb hwn yn atal y Derbynnydd rhag datgelu’r Wybodaeth Gyfrinachol sy’n ofynnol dan y gyfraith neu gan unrhyw awdurdod cymwys. Rhaid i’r Derbynnydd roi gwybod i’r Datgelydd os bydd unrhyw ddeunydd yn cael ei ddatgelu.

9. Bydd y Derbynnydd, ar gais gan y Datgelydd, yn dychwelyd pob copi a chofnod o'r Wybodaeth Gyfrinachol (copi caled, digidol neu fel arall) i'r Datgelydd o fewn mis i'r cais ac yn ymrwymo i beidio â chadw unrhyw gopïau neu gofnodion o'r Wybodaeth Gyfrinachol yn unol â'r cyfarwyddyd.

10. Bydd yr ymrwymiadau yng nghymalau 2, 3, a 4 yn parhau mewn grym pan benderfynir ar unrhyw gontract neu gytundeb rhwng y Derbynnydd a’r Datgelydd.

11. Caiff y Cytundeb hwn ei lywodraethu gan gyfraith Lloegr, a bydd yn cael ei ddehongli yn unol â hynny. Bydd gan Lysoedd Lloegr awdurdodaeth anweithredol i ymdrin ag unrhyw anghydfod sydd wedi deillio, neu a all ddeillio o’r Cytundeb hwn, neu mewn cysylltiad â’r Cytundeb hwn.

Enw Llofnod Dyddiad
Llofnod y tyst

Dyddiad.................

Enw'r tyst............

Cyfeiriad y tyst..........